

Pecyn Gweithgareddau Caeau Llandaf

NOD: Cyflwyno datblygiad arfaethedig y parc i'r dosbarth a rhoi cyfle i'r plant a'r bobl ifanc rannu eu barn a llunio datblygiad maes chwarae Caeau Llandaf drwy drafod chwarae, rhannu eu syniadau a dylunio eu hardal chwarae ddelfrydol.

Paratoi

Adolygwch adnoddau a holiadur ymgynghoriad cyhoeddus Ardal Chwarae Caeau Llandaf. Os nad ydych wedi ymgysgu â lleoliad y safle a'r cyfleusterau presennol, gwnewch hynny. (gwybodaeth yn y ddogfen ymgynghori gyhoeddus)

Deunyddiau ac Adnoddau Hwyluswyr

- Cyflwyniad Powerpoint.
- Dogfen Ymgynghoriad Cyhoeddus.
- Taflen Waith Disgyblion.

Deunyddiau Cyfranogi

- Pensiliau, pennau, pren mesur, rwber ac ati. (Offer gwneud lluniau sylfaenol)
- Taflenni Gweithgaredd

Cyflwyniad i hwyluswyr

Er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflwyno'r wers hon rydym wedi creu **cyflwyniad powerpoint** sy'n cyflwyno ailddatblygiad maes chwarae Caeau Llandaf, yn ysgogi trafodaeth ar y 5 math o chwarae a amlinellir ac yn rhoi cyfle i blant roi adborth ar ba fathau o offer/gweithgareddau sydd fwyaf cyffrous.

Mae'r pecyn hefyd yn cynnwys **taflen waith i ddisgyblion** y dylid ei darparu i bob unigolyn i nodi'r ddau weithgaredd a ffeirir ganddynt a arddangosir ar bob sleid chwarae a rhoi cynllun parc gwag i'r plant wneud llun o'u "parc delfrydol".

PowerPoint (15mun)

Ar ôl ymgysgu â'r dogfennau ymgynghoriad cyhoeddus dylech deimlo'n gyfforddus yn disgrifio'r prosiect i'ch dosbarth. Mae gan y plant yr hawl i fynegi eu barn a'u safbwyntiau a chael dweud eu dweud! Mae hyn yn arbennig o bwysig pan fydd y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud yn effeithio'n uniongyrchol ar blant a phobl ifanc!

Wrth gyflwyno'r Powerpoint i'r dosbarth byddwch yn ymwybodol o'r nodiadau athrawon o dan bob sleid am gymorth.

Cyflwyno Gwaith

Pan fydd y wers wedi dod i ben. Mae'n bwysig dogfennu'n briodol y syniadau a'r adborth gan y dosbarth.

Os gallech dynnu llun/sganio taflenni gwaith y disgyblion yn unigol a'u hanfon at mark.synan@caerdydd.gov.uk bydden ni'n gwerthfawrogi hynny'n fawr.

Taflen Waith Disgyblion (15mun)

Nawr bod y dosbarth wedi bod yn meddwl am yr hyn sy'n gwneud maes chwarae gwych mae'n bryd gwneud llun!

Gan ddefnyddio pa bynnag ddeunyddiau gwneud lluniau sydd gennych wrth law, gofynnwch i'r plant wneud llun o'u parc delfrydol. Dydyn ni ddim eisiau i'r dasg fod yn rhy rhagnodol felly os ydyn nhw eisiau gwneud llun 1 darn o offer chwarae -yn hytrach na maes chwarae cyfan - mae hynny'n iawn hefyd.

Anogwch y plant i labelu eu lluniau ac os ydynt am ysgrifennu unrhyw negeseuon neu ofyn unrhyw gwestiynau, anogwch nhw i gynnwys y rhain hefyd.

Awgrym

Os ydych yn gweithio gyda phlant iau, efallai y byddai'n haws i chi helpu i gasglu adborth ar hoff offer drwy dechneg bleidleisio "dwylo lan". Gwnewch yn siŵr eich bod yn cynnwys canlyniadau mewn e-bost cyflwyno.